OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1992

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

## RHAN 6

Tynnu neu amnewid marciau adnabod ar anifeiliaid a adnabuwyd cyn 1 Ionawr 2016

### Amnewid marc adnabod sengl ar anifail sydd â dau dag

**20.** Mae anifail yn cael ei ailadnabod yn unol â'r erthygl hon os rhoddir, yn lle'r modd adnabod sydd ar goll neu sy'n annarllenadwy—

(a) modd adnabod sy'n dwyn yr un rhif unigryw â'r modd adnabod sydd ar goll neu sy'n annarllenadwy;

(b) dau fodd adnabod anelectronig, ill dau yn dwyn yr un rhif; neu

(c) y modd adnabod a bennir yn Erthygl 4(1) (y paragraff cyntaf), Erthygl 4(2)(a) a (b) ac Erthygl 9(3) o Reoliad y Cyngor.